

**2020 Rhif (Cy.)**

**2020 No. (W.)**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A48  
(Cylchfan Pen-sarn, Caerfyrddin i  
Nant-y-caws, Sir Gaerfyrddin)  
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)  
2020

The A48 Trunk Road (Pensarn  
Roundabout, Carmarthen to  
Nantycaws, Carmarthenshire)  
(Temporary Prohibition of  
Vehicles) Order 2020

*Gwnaed* 14 Ebrill 2020

*Made* 14 April 2020

*Yn dod i rym* 20 Ebrill 2020

*Coming into force* 20 April 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A48, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A48 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cylchfan Pen-sarn, Caerfyrddin i Nant-y-caws, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 20 Ebrill 2020.

1. The title of this Order is the A48 Trunk Road (Pensarn Roundabout, Carmarthen to Nantycaws, Carmarthenshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2020 and it comes into force on 20 April 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 19:00 o’r gloch ar 20 Ebrill 2020 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A48 Llundain i Abergwaun.

### **Gwaharddiad**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar darn o gerbyttffordd tua’r dwyrain y gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Pen-sarn, Caerfyrddin hyd at ei chyffordd â’r C2071 sy’n arwain at Nant-y-caws, Sir Gaerfyrddin.

### **Cymhwys**

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn ei dangos.

### **Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

14 Ebrill 2020

*Richard Morgan*  
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A48 London to Fishguard Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 19:00 hours on 20 April 2020 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

### **Prohibition**

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the eastern side of Pensarn Roundabout, Carmarthen to its junction with the C2071 leading to Nantycaws, Carmarthenshire.

### **Application**

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### **Duration of this Order**

5. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the

14 April 2020

*Richard Morgan*  
Head of Planning, Asset Management and Standards  
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A48  
(CYLCHFAN PEN-SARN, CAERFYRDDIN I  
NANT-Y-CAWS, SIR GAERFYRDDIN)  
(GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A48, neu gerllaw iddi, rhwng Cylchfan Pen-sarn, Caerfyrddin a Nant-y-caws, Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o gerbyttffordd tua'r dwyrain yr A48 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Pen-sarn hyd at ei chyffordd â'r C2071 sy'n arwain at Nant-y-caws.

Y llwybr arall fydd mynd ar yr A40 tua'r dwyrain i Landeilo a'r A483 tua'r de i Gylchfan Pont Abraham i ail-ymuno â'r A48.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn dod i rym ar 20 Ebrill 2020 ac y byddant yn weithredol dros nos (19:00 – 06:00 o'r gloch) hyd 30 Ebrill 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf, rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A48 TRUNK ROAD (PENSARN  
ROUNDAABOUT, CARMARTHEN TO  
NANTYCAWS, CARMARTHESHIRE)  
(TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES)  
ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A48 trunk road between Pensarn Roundabout, Carmarthen and Nantycaws, Carmarthenshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the length of the eastbound carriageway of the A48 that extends from its junction with the eastern side of Pensarn Roundabout to its junction with the C2071 leading to Nantycaws.

The alternative route will be via the eastbound A40 to Llandeilo and southbound A483 to Pont Abraham Roundabout to rejoin the A48.

It is expected that the temporary prohibition will come into force on 20 April 2020 and operate overnight (19:00 – 06:00 hours) until 30 April 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government